undeb addysg cenedlaethol cymru

Canllaw poced i ANG

Croeso

Addysgu yw un o'r gyrfaoedd mwyaf gwerth chweil y gallech fod wedi'u dewis, ond wrth ddechrau arni efallai'n wir y bydd gennych chi lawer o gwestiynau. A chithau'n aelod o'r Undeb Addysg Cenedlaethol, mae gennym lond gwlad o gymorth a chyngor i'ch helpu chi yn eich swydd newydd, gan gynnwys gwybodaeth benodol sy'n ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin a'r problemau sy'n wynebu'r rheini sy'n newydd i'r maes. Bydd eich undeb yma i'ch cefnogi drwy gydol eich gyrfa, er mwyn eich helpu i fod yn llais cryf dros athrawon a thros y plant y byddwch yn eu haddysgu.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Ymsefydlu

Mae'n rhaid i bob athro sydd â statws athro cymwysedig gwblhau cyfnod ymsefydlu sydd fel arfer yn para blwyddyn. Mae cyfnod ymsefydlu da yn eich helpu i deimlo'n gartrefol, ac i deimlo eich bod yn perthyn. Mae hefyd yn sicrhau eich bod yn gwybod am yr holl arferion a'r gweithdrefnau ac yn deall gwerthoedd, amcanion a dibenion y sefydliad y byddwch yn dod yn rhan ohono. Dylai'r broses ymsefydlu fod yn un gefnogol sy'n helpu athrawon newydd i ddatblygu eu gallu a'u hyder proffesiynol. I gael rhagor o wybodaeth, mae gennym ganllaw i'r cyfnod ymsefydlu a rhestr wirio yn **neu.org.uk**

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Cyn ichi ddechrau

Bydd eich diwrnod cyntaf mewn ysgol newydd yn brofiad cyffrous, ond efallai hefyd y byddwch fymryn yn bryderus. Dylech geisio dod o hyd i gymaint o wybodaeth â phosibl am yr ysgol cyn ichi ddechrau yno, drwy'r wefan, prosbectws neu adroddiad arolygu diweddar. Trefnwch i ymweld â'r ysgol os gallwch, er mwyn ymgyfarwyddo â'r lle, a dewch o hyd i unrhyw wybodaeth arall a fydd yn eich helpu i ddechrau'n dda.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Perthnasau

Mae angen creu llawer o berthnasau wrth gamu i'r ystafell ddosbarth am y tro cyntaf: gyda disgyblion, athrawon eraill, staff cynorthwyol, arweinwyr ac, wrth gwrs, rhieni. Cymerwch eich amser; does dim rhaid ichi ddod i adnabod pawb yn syth bin. Dylech gydnabod sgiliau ac arbenigedd eich cydweithwyr mwy profiadol, ond peidiwch ag anghofio bod eich barn chithau'n bwysig hefyd. Mae dysgu, dros amser, sut y mae'r staff yn ymwneud â'i gilydd yn amhrisiadwy.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Chi a'ch mentor

I hyfforddeion neu athrawon newydd gymhwyso, mae'n debyg mai'r berthynas broffesiynol bwysicaf fydd honno sydd gennych â'ch mentor, a dylid neilltuo amser er mwyn ichi gyfarfod yn rheolaidd. Nid oes swydd-ddisgrifiad penodol na chyson ar gael ar gyfer rôl mentor, ac mae'r gair yn aml yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio nifer o swyddi gwahanol.

Mae gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol ganllawiau ymarferol ar gyfer rheoli'r berthynas hon, gan gynnwys cyngor ynghylch yr hyn y dylech chi ei ddisgwyl gan eich mentor a'r hyn y dylai'r mentor ei ddisgwyl gennych chi.

neu.org.uk/advice/role-mentor

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Amser cynllunio, paratoi ac asesu

Mae gan bob athro hawl i neilltuo o leiaf ddeg y cant o'u hamserlen addysgu ar gynllunio, paratoi ac asesu. Dylid neilltuo'r amser hwn yn ystod amserlen addysgu wythnosol yr ysgol, yn hytrach na'i ychwanegu at y diwrnod ysgol, a rhaid iddo fod mewn blociau o 30 munud fan lleiaf. Mae gan athrawon newydd gymhwyso hefyd hawl i dreulio deg y cant yn llai o amser yn addysgu nag athrawon eraill yn yr ystafell ddosbarth, er mwyn iddyn nhw gael amser i wneud gweithgareddau eraill sy'n rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Datblygu proffesiynol

Nid yw fyth yn rhy gynnar yn eich gyrfa i feddwl am ddatblygu proffesiynol parhaus. Mae rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus yr undeb yn cael ei darparu gan hyfforddwyr hynod gymwys, ac mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau, gyda llawer ohonyn nhw ar gyfer athrawon newydd. Mae'r cyrsiau wedi'u cynllunio i ateb eich anghenion unigol chi, gan gael effaith hirhoedlog ar addysgu a dysgu. Ewch i **neu.org.uk/learning-and-events** i weld ein rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Cyflog

Bydd y rhan fwyaf o athrawon newydd gymhwyso yn cael eu rhoi ar waelod y brif ystod gyflog. Mae'r Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol yn caniatáu i gyrff llywodraethu roi athrawon sydd â phrofiad perthnasol y tu allan i'r maes addysgu ar bwynt uwch ar yr ystod. Os dywedwyd wrthych chi y bydd eich ysgol chi'n gwneud hyn, gofalwch bod eich cyflog yn adlewyrchu hynny. Os ydych chi'n gweithio mewn academi, dylech fwrw golwg ar y trefniadau cyflog gan y gall y rhain amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol academïau ac ymddiriedolaethau academïau. Ewch i **neu.org.uk/pay-advice**

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Y Cynllun Pensiwn Athrawon

Bydd pob athro newydd yn ymuno â chynllun pensiwn ‘cyfartaledd gyrfa’ yn awtomatig. Mae hyn yn golygu bod pensiynau wedi’u seilio ar eich cyflog cyfartalog dros eich holl yrfa. Fel athro newydd gymhwyso, byddwch yn talu lleiafswm o 7.4% o’ch cyflog tuag at eich pensiwn. Rydym yn deall bod hyn yn gofyn llawer, wrth i’r esgid wasgu yn sgil pethau fel benthyciadau myfyrwyr a rhent. Serch hynny, bydd eich cyflogwr yn talu cyfraniad sylweddol o 23.6% hefyd (o fis Medi 2019), felly, os byddwch chi’n dewis peidio ag ymuno, byddwch yn colli budd ariannol sylweddol. Os ydych chi’n ystyried gwneud hyn, mae’r NEU yn argymell eich bod yn cael cyngor ariannol annibynnol cyn bwrw yn eich blaen, a’ch bod yn adolygu eich penderfyniad yn rheolaidd neu pan fydd eich sefyllfa ariannol yn gwella.

Ewch i’n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Yn yr ystafell ddosbarth

Dylai eich amser yn yr ystafell ddosbarth eich cyffroi a'ch ysgogi. Bydd gennych chi nifer o gyfrifoldebau, ond dylech fod yn ymwybodol fod gan yr ysgol gyfrifoldebau tuag atoch chithau hefyd. Mae cyngor yr Undeb Addysg Cenedlaethol am y cyfrifoldebau hyn ar gael ar ein gwefan ac yn ein cyhoeddiadau, neu drwy gysylltu â ni'n uniongyrchol.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Cyfrifoldebau cyfreithiol

Mae gan bob athro, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio tuag at ennill statws athro cymwysedig, 'ddyletswydd gofal' tuag at eu disgyblion. Yn unol â'r ddyletswydd gofal hon, mae gofyn ichi ddefnyddio eich hyfforddiant proffesiynol a'ch sgiliau i hyrwyddo lles disgyblion. Mae gan eich ysgol hefyd gyfrifoldeb i'ch hyfforddi a'ch cefnogi i wneud hyn. Mae gan yr NEU gyngor am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau wrth gyflawni eich dyletswydd gofal.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Amddiffyn plant

Nid yw athrawon yn gyfrifol am ymchwilio i achosion posibl o gam-drin corfforol neu emosiynol, ond dylent fod yn ymwybodol sut i roi gwybod am bryderon. Dylech ymgyfarwyddo â'r gweithdrefnau yn eich ysgol, eich academi neu'ch coleg ar gyfer delio â cham-drin posibl. Dylai eich ysgol neu'ch coleg sicrhau bod y wybodaeth hon gennych o ddiwrnod cyntaf eich cyflogaeth. Dylech hefyd wybod pwy yw'r swyddog diogelu arweiniol - dyma pwy sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Mynnwch gael hyfforddiant addas ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Straen

Mae'r NEU yn credu y dylai fod gan bob cyflogwr bolisi ar gyfer lleihau ac atal straen ymhlith athrawon. Y pethau mwyaf cyffredin sy'n achosi straen ymhlith athrawon yw baich gwaith ac arolygiadau Ofsted (yn Lloegr) ac Estyn (yng Nghymru).

Os byddwch chi'n teimlo dan straen, mae'n debygol y bydd eich cydweithwyr yn teimlo felly hefyd. Siaradwch â chynrychiolydd yr NEU er mwyn iddyn nhw allu rhoi cymorth ac awgrymiadau ynghylch sut i fynd i'r afael â straen a'i achosion.

neu.org.uk/stress

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Mae'r NEU yn credu y dylai fod gan bob cyflogwr bolisi ynghylch y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'r Adran Addysg yn Lloegr hefyd yn dweud y dylai ysgolion ystyried cynnwys cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn elfen yn eu cynllun datblygu, felly holwch a oes gan eich gweithle chi un o'r rhain. At hynny, mae'r Adran Addysg yn cynnig cyngor penodol ar leihau baich gwaith sy'n ymwneud â marcio, cynllunio gwersi, a chasglu data. Fel rhan o'n hymgyrch i fynd i'r afael â baich gwaith gormodol, mae'r NEU wedi datblygu nifer o adnoddau defnyddiol, ynghyd â pharhau i lobïo'r Llywodraeth i wneud newidiadau er mwyn lleihau baich gwaith. Ewch i **neu.org.uk/campaigns/workload**

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Marcio

Dylai athrawon allu barnu'n broffesiynol drostyn nhw eu hunain sut a pha bryd i farcio. Mae Llawlyfr Arolygu Ysgolion Ofsted yn datgan yn glir nad oes disgwyl math penodol o farcio ac adborth, na swmp penodol ohono; yr ysgol ddylai benderfynu ar hyn drwy ei bolisi asesu.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi dweud y dylai marcio fod yn rhywbeth sy'n ysgogi ac sy'n ystyrlon, a bod modd ei reoli. Mae Estyn wedi egluro y dylai'r holl adborth sy'n cael ei roi (gan gynnwys marcio) fod yn brydlon ac yn ystyrlon. Dylai fod modd ei reoli, a dylai fod yn ysgogi disgyblion.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Cynlluniau gwersi

Fel hyfforddai neu athro newydd gymhwyso, mae'n debyg y bydd gofyn ichi greu cynlluniau ar gyfer eich gwersi. Mater o grebwyll proffesiynol yn llwyr yw'r fformat, gan nad yw'r Adran Addysg, Ofsted nac Estyn yn gofyn am fformat penodol. Dylen nhw fod mor gryno â phosibl, a gellir eu gosod ar ffurf pwyntiau bwled neu nodiadau, gan nodi sut y gellir cyflawni'r amcanion dysgu. Ni ddylai fod disgwyl ichi ddangos cynlluniau gwersi i'r uwch reolwyr, felly siaradwch â chynrychiolydd eich undeb os bydd rhywun yn gofyn ichi wneud hyn.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Data

Gall casglu data fod yn un o'r prif bethau sy'n achosi problemau gyda baich gwaith mewn ysgolion. Mae gan yr NEU gyngor am sut i reoli hyn yn well. Cyngor yr Adran Addysg ac Estyn yw y dylai fod diben clir i bob darn o ddata a gaiff ei gasglu, a dylai'r broses fod mor effeithlon â phosibl. Maen nhw'n cynghori mai dim ond data sy'n angenrheidiol i wella deilliannau plant y dylid ei gasglu, a dylai faint o ddata a gaiff ei gasglu fod yn gymesur â pha mor ddefnyddiol yw hwnnw. Dylid osgoi dyblygu - dylid casglu data unwaith a'i ddefnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Ymddygiad

Mae pob athro, boed yn newydd i'r ystafell ddosbarth neu'n rhywun sydd â blynyddoedd lawer o brofiad, weithiau'n gorfod dygymod ag ymddygiad gan ddisgyblion sy'n heriol ac yn eu tanseilio. Dylech ei gwneud yn glir beth yw'ch disgwyliadau yn yr ystafell ddosbarth a beth yw rheolau'r dosbarth, gan gyfleu'r rhain i'r disgyblion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Maen nhw'n fwy tebygol o ymateb yn gadarnhaol i reolau y maen nhw wedi cytuno arnyn nhw. Gofalwch eich bod wedi darllen polisi ymddygiad yr ysgol a thrafod arferion gyda'ch mentor wrth ymuno ag ysgol newydd. Mae gan yr NEU gyngor ymarferol ar reoli ymddygiad, gan gynnwys canllaw ar reoli ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol.

neu.org.uk/advice/managing-behaviour

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Arolygiadau

Gall eich arolygiad cyntaf gan Ofsted neu Estyn ymddangos yn frawychus, ond ni ddylai arolygiadau fod yn brofiadau y mae'n rhaid ichi'u hwynebu ar eich pen eich hun. Siaradwch ag aelodau eraill yr NEU a cheisiwch baratoi at yr arolygiadau gyda'ch gilydd. Mae hynny'n lleihau'r gwaith ychwanegol y mae angen ei wneud ac yn sicrhau bod gan yr athrawon bethau dan reolaeth. Dylech fod yn ymwybodol o ganllawiau Ofsted ac Estyn sy'n 'chwalu mythau' – maen nhw'n egluro'r hyn y dylai arolygwyr edrych amdano a'r hyn na ddylen nhw fod yn edrych amdano. Mae gan yr NEU hefyd ddeunydd i'ch helpu drwy'r broses.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Arsylwi

Mae'r NEU yn credu y dylai arsylwi yn yr ystafell ddosbarth fod yn rhywbeth cefnogol sy'n annog datblygiad. Fel athro newydd gymhwyso, bydd pobl yn arsylwi arnoch yn rheolaidd. Nid oes gofyniad penodol ynghylch pryd y dylid arsylwi. Polisi'r NEU yw na ddylai athro orfod wynebu mwy na thair sesiwn arsylwi yn yr ystafell ddosbarth bob blwyddyn, heb i gyfanswm hynny fod yn fwy na thair awr.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu electronig

Mae Facebook, Twitter ac Instagram wedi newid sut rydyn ni'n cyfathrebu, ond mae'n bwysig cofio bod gyrfaoedd wedi cael eu chwalu ar ôl i bobl bostio negeseuon annoeth. Gall edrych ar bethau amhriodol neu rannu gwybodaeth amhriodol ar-lein danseilio eich proffesiynoldeb, hyd yn oed os gwneir hynny y tu allan i'r gwaith. Cyfyngwch ar ba mor gyhoeddus yw'ch cyfrifon a pheidiwch â phostio dim na fyddech chi am i'ch cyflogwyr ei weld. At hynny, peidiwch byth â defnyddio cyfeiriadau e-bost personol, ffonau symudol personol na chyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol i gysylltu â disgyblion na rhieni.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Gweithgareddau ychwanegol

Os byddwch yn penderfynu cyfrannu at weithgareddau fel clybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol, rhaid i hynny fod yn wirfoddol. Ni ddylai fod ar draul eich gwaith creiddiol na'r cydbwysedd rhwng eich bywyd a'ch gwaith.

Os byddwch chi'n cyfrannu at weithgareddau ychwanegol, fe allwch chi gael eich talu am hynny o dan rai amgylchiadau prin, os ydych chi'n cael eich cyflogi o dan y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol. Dylai lefel y tâl fod wedi'i nodi ym mholisi cyflog eich ysgol.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Cymerwch ran

Gweithwyr addysg proffesiynol yn union fel chi sy'n arwain yr NEU. Fe allwch chi gymryd rhan mewn pob math o ffyrdd gwahanol, gan wneud gwir wahaniaeth i'ch gweithle a thrwy'r gwasanaeth addysg i gyd. Yn eu plith mae cefnogi ein hymgyrchoedd, ymateb i arolygon, cymryd rhan yn y cyfleoedd dysgu a datblygu rydyn ni'n eu cynnig, neu ymuno â'n rhwydwaith proffesiynol newydd er mwyn trafod materion sy'n effeithio arnoch chi.

Ewch i **neu.org.uk/get-involved**

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Yma i helpu

Bydd modd i'ch cynrychiolydd yn yr ysgol neu'ch coleg roi cefnogaeth ymarferol a phersonol ichi. Gall eich cangen/ardal leol hefyd roi cymorth a chyngor. Os nad ydych chi'n gwybod enw/rhif ffôn eich cynrychiolydd neu'ch ysgrifennydd cangen/ardal, neu os nad oes gennych chi gynrychiolydd yn eich gweithle chi, ffoniwch **0345 811 8111** neu ewch i **neu.org.uk/contact-us**

Fe allwch chi hefyd ffonio **0345 811 8111** neu anfon e-bost i **adviceline@neu.org.uk** i gael cyngor a chymorth.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Uwchraddiwch eich aelodaeth nawr

Mae modd uwchraddio i fod yn aelod llawn o'r NEU am ddim ond £1 am flwyddyn academaidd 2020/21, er mwyn sicrhau eich bod yn cael yr holl gefnogaeth a'r holl gyngor y mae eu hangen arnoch. Mae modd uwchraddio ar-lein yn **neu.org.uk/join-now** neu drwy ffonio **0845 811 8111**. Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn llais grymus dros yr holl athrawon a'r gweithwyr addysg proffesiynol sy'n teimlo'n angerddol dros yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Uwchraddiwch heddiw i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

Ymunwch â'r NEU heddiw i fod yn rhan o'r undeb addysg mwyaf yn Ewrop

- Dewch yn rhan o undeb ymgyrchu sy'n llywio dyfodol addysg
- Fe gewch eich cefnogi gan ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle
- Fe gewch gyngor gan ein llinell gyngor genedlaethol bwrpasol
- Chi yw'r undeb. Cymrwch ran mewn ymgyrchoedd yr NEU, trefnu digwyddiadau neu gyfarfodydd yn eich gweithle
- Fe gewch fanteisio ar ystod eang o gyrsiau datblygu proffesiynol parhaus yn eich ardal leol am bris gostyngol
- Fe gewch fanteisio ar fuddion a gwasanaethau i aelodau a fydd yn arbed arian ichi, gan gynnwys yswiriant yn y gwaith

neu.org.uk/neu-member-benefits

Ewch i'n tudalennau i athrawon newydd gymhwyso yn neu.org.uk/new-teachers

undeb addysg cenedlaethol cymru

Hamilton House
Mabledon Place
Llundain
WC1H 9BD
0345 811 8111

neu.org.uk
@NEUnion
/nationaleducationunion

NEU1701W/0120